**From:** **[Hepgorwyd yr wybodaeth – Swyddog Comisiynydd y Gymraeg] [Hepgorwyd yr wybodaeth – Swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**
**Sent:** 09 July 2013 14:50
**To:** **[Hepgorwyd yr wybodaeth – Swyddog Llwyodraeth Cymru]** (ADAS - UG)
**Cc:** Meri Huws; **[Hepgorwyd yr wybodaeth – Swyddog Comisiynydd y Gymraeg]; [Hepgorwyd yr wybodaeth – Swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**
**Subject:** Safonau'r Gymraeg

**[Hepgorwyd yr wybodaeth - Swyddog Llywodraeth Cymru],**

Diolch am yr e bost ddoe yn ymchwilio i bosibiliadau cyd-weithio'n agosach wrth ddatblygu Safonau'r Gymraeg dros y misoedd nesaf. Fe wnaeth y Comisiynydd gynnal trafodaeth gyda'r Tîm Rheoli er mwyn ystyried y cais a gofynnwyd i mi ymateb.

Fel tîm rheoli nid ydym yn teimlo y gallwn ryddhau unrhyw un ar secondiad i gynorthwyo'r Llywodraeth gyda'r gwaith o baratoi Safonau. Mae'n anodd i sefydliad bychan ymdopi gyda newidiadau sylfaenol i'w adnoddau heb i hynny gael effaith andwyol ar raglenni gwaith. Rydym eisoes yn cynnal cyfundrefn cynlluniau iaith ac y mae rhyddhau swyddog am gyfnod yn opsiwn nad oes modd cytuno iddo. Mawr obeithiwn y bydd modd i Lywodraeth Cymru ddwyn adnoddau ynghyd a gwneud yn fawr o'i dîm cyfreithiol yn y cyswllt hwn.

Fe wnaethom ystyried y syniad o sefydlu grŵp i weithio ar y cyd ar eiriad y Safonau a'r broses ymgynghori. Ein barn yw mai gwell fyddai i ni ddarparu sylwadau ysgrifenedig fel y gwnaethpwyd yn ddiweddar pan fu i ni ymateb i'ch cynigion safonau drafft. Gallaf gadarnhau y byddai modd i ni ddarparu sylwadau ar gynigion ynghylch y Safonau Polisi, Hybu a Chadw Cofnodion.

Ar 10 Mai ysgrifennodd y Comisiynydd at y cyn Weinidog yn gofyn am eglurder ynghylch cynnal ymchwiliadau safonau. Daeth llythyr o ymateb wythnos yn ôl ond nid oedd y llythyr hwnnw'n ateb y cwestiwn a holwyd yn y llythyr gwreiddiol. Yng nghyswllt datganiadau blaenorol gan y Llywodraeth a'r cais a dderbyniwyd ddoe, nid yw'n glir beth sydd gan y Llywodraeth mewn golwg pan yn defnyddio'r term 'ymgynghori'. Ni fyddai Comisiynydd y Gymraeg am lywio proses ymgynghori Llywodraeth Cymru os mai ymgynghoriad eang ar Safonau'r Gymraeg sydd dan sylw. Fodd bynnag os mai ymchwiliad safonau sydd dan sylw, mae'n debyg y byddai'n werthfawr trafod sut orau i symud ymlaen. Hoffwn awgrymu bod y Llywodraeth yn mynd ati i baratoi papur yn amlinellu'n fanwl y camau nesaf ar amserlen gan nodi beth yn union y tybiwch y dylai Comisiynydd y Gymraeg fod yn ei wneud yn unol â swyddogaethau Mesur y Gymraeg. Byddai hyn yn caniatáu i Dîm Rheoli'r Comisiynydd wneud penderfyniadau clir ac ymateb i chi'n ysgrifenedig wedi hynny.

Yn gywir,
**[Hepgorwyd yr wybodaeth - Swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**

Cyfarwyddwr Strategol/Director of Strategy
Rhif ffôn uniongyrchol 01286 685932 (Caernarfon)

**Comisiynydd y Gymraeg**

Siambrau'r Farchnad, 5–7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT
0845 6033 221
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
comisiynyddygymraeg.org
Dylai'r datganiadau/sylwadau uchod gael eu hystyried yn rhai personol ac nid o reidrwydd yn ddatganiadau neu sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg, unrhyw ran ohono neu unrhyw gorff sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r e-bost hwn wedi cael ei sganio gan System Diogelwch e-bost Symantec Security.cloud. Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â messagelabs.com/email.

---

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers, 5-7 St Mary St, Cardiff, CF10 1AT
0845 6033 221
Correspondence welcomed in Welsh and English
welshlanguagecommissioner.org
The statements/comments made above should be regarded as personal and not necessarily those of the Welsh Language Commissioner, any constituent part or connected body. This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service. For more information please visit messagelabs.com/email.

---

Mae'r e-bost hwn wedi cael ei sganio gan Gwasanaeth Diogelwch.cwmwl e-bost Symantec.
Am ragor o wybodaeth, ewch at http://www.symanteccloud.com

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com

---

On leaving the Government Secure Intranet this email was certified virus free.
Communications via the GSi may be automatically logged, monitored and/or recorded for legal purposes.
Wrth adael Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth nid oedd unrhyw feirws yn gysylltiedig â'r neges hon. Mae'n ddigon posibl y bydd unrhyw ohebiaeth drwy'r GSi yn cael ei logio, ei monitro a/neu ei chofnodi yn awtomatig am resymau cyfreithiol.

---
Mae'r e-bost hwn wedi cael ei sganio gan Gwasanaeth Diogelwch.cwmwl e-bost Symantec.
Am ragor o wybodaeth, ewch at http://www.symanteccloud.com

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com

---

---

Mae'r e-bost hwn wedi cael ei sganio gan Gwasanaeth Diogelwch.cwmwl e-bost Symantec.
Am ragor o wybodaeth, ewch at http://www.symanteccloud.com

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com

---